Taflen Cyngor Frog*life* 2

MAE ANGEN FFRINDIAU AR NADROEDD

Atebion i gwestiynau cyffredinol am nadroedd mewn gerddi

1. Mae holl nadroedd Prydain yn cael eu gwarchod o dan y gyfraith

Mae holl nadroedd Lloegr, Yr Alban a Chymru wedi eu diogelu rhag eu lladd a'u niweidio o dan Ddeddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981. Mae gan y neidr lefn brin warchodaeth ychwanegol ac mae'n debygol y caiff cynefinoedd nadroedd eu diogelu o dan y gyfraith, yn ôl eu statws. Pwrpas y ddeddfwriaeth nadroedd yw ceisio rhoi terfyn ar y lleihad yn eu niferoedd. Felly, os dowch ar draws neidr, peidiwch â'i niweidio, a gofynnwch am gyngor os yw hi wedi ei dal neu wedi brifo (ffôniwch yr R.S.P.C.A.ar 0990 555999).

2. Pam fod niferoedd nadroedd yn lleihau?

Mae nadroedd yn anifeiliaid hawdd i'w niweidio. Yn wahanol i adar, sydd yn gallu hedfan o le i le i osgoi perygl neu ddod o hyd i gynefin gwell, nid yw nadroedd yn medru croesi'n hawdd dros ddarnau eang o dir sydd yn anffafriol iddynt. Mae hyn yn golygu eu bod yn aml yn cael eu caethiwo i gynefinoedd bychain. Os yw'r cynefin yn cael ei fygwth, os yw'n cael ei amharu neu ei ddifrodi, ni all y nadroedd guddio yn unman. Os collir y cynefin yn gyfangwbl yna fe gollir y nadroedd hefyd. Hwyrach y gwnaiff rhai symud allan a byw am sawl blwyddyn mewn mannau llai addas; pan ymddangosant yn ddisymwyth mewn mannau o'r fath, maent yn peri pryder. Neu hwyrach, os mai peth dros dro yw'r difrod - ar ôl tân er enghraifft - ac mae'r holl nadroedd sydd yn byw yn y cynefin wedi eu lladd, hwyrach fod y cynefin yn rhy bell oddi wrth gynefinoedd nadroedd eraill i ganiatau ail-boblogi naturiol.

Yn ogystal â dioddef oddi wrth leihad ym maint a nifer eu cynefinoedd, mae nadroedd hefyd yn dioddef o gyhoeddusrwydd gwael. Mae llawer o ofergoelion ynglyn â nadroedd ac o ganlyniad mae nifer fawr o bobl yn eu hofni'n afresymol. Pan ddaw pobl i gysylltiad â nadroedd gallant, yn anffortunus, eu herlid - i'r fath raddau, weithiau, nes bod y nadroedd yn diflannu am byth o'r cynefin leol.

3. Pa neidr yw hi?

Mae tair neidr frodorol yn y Deyrnas Gyfunol ac un madfall heb goesau y gellir ei chymysgu am neidr. Mae'n hawdd gwahaniaethu rhyngddynt. Cofiwch fod lliw yn bwysig wrth wahaniaethu rhwng nadroedd oherwydd mae maint y gwahanol fathau yn debyg ar adegau, ac yn newid yn ôl yr oed.

Neidr fraith (*Natrix natrix*)
Y neidr fraith yw'r neidr Brydeinig fwyaf - gall dyfu i 150cm (5 troedfedd) ond tua 90cm (3 troedfedd) yw'r maint cyffredin. Mae'n amrywio llawer yn ei lliwiau - fel arfer mae'n lliw gwyrdd ond hefyd ceir brown a llwyd, gyda llinellau ar i fyny, tenau, du a/neu smotiau ar hyd ei hochrau. Fel arfer mae ganddi goler oren neu felyn tu ôl i'w phen gyda marciau du tu hwnt i hwnnw ac weithiau mae smotiau tywyll ar hyd ei chefn. Gellir dod o hyd iddi mewn sawl rhan o Gymru a Lloegr (ond nid yn Yr Alban na Gogledd Iwerddon) ac mae ei hoff gynefinoedd yn tueddu i fod yn gysylltiedig â dwr, er enghraifft, afonydd, nentydd, llynnoedd, pyllau dwr, corsydd, porfa agored ac yn aml, gerddi cyfagos i'r cynefinoedd hyn. Weithiau defnyddir twmpathau compost mewn gerddi fel nyth i ddodwy wyau ac wedi i'r cywion ddeor maent yn ymddangos yn un twr yn niwedd Awst a Medi (rhwng 10 - 40 ohonynt). Amffibiaid a physgod yw bwyd nadroedd brith yn gyffredinol ac ni wnânt unrhyw ddrwg i bobl.

Y neidr lefn (*Coronella austriaca*)
Anaml iawn y bydd y neidr lefn yn tyfu yn fwy na 70cm (28 modfedd). Fel arfer, llwyd neu

lwyd-frown yw ei lliw gyda marciau brown tywyll i lawr ei chefn. Yn gyffredinol mae ganddi ddarn tywyll ar ffurf aden gloyn byw ar ei phen. Mae nadroedd llyfn yn brin iawn ac maent o dan warchodaeth trwm gan nad oes ond ychydig filoedd ohonynt ar ôl yn y gwyllt. Oherwydd eu prinder, mae'r warchodaeth yn cael ei hymestyn i gynefin y nadroedd hefyd - y rhostiroedd lle maent yn byw ar fadfallod a mamaliaid bychain. Mae'r neidr lefn yn byw bron yn ddi-eithriad mewn rhannau o Swydd Surrey, Dorset a de-orllewin Hampshire. Os ydych yn meddwl eich bod wedi gweld neidr lefn ac yn byw yn yr ardaloedd hynny, rhowch wybod i'r Herpetological Conservation Trust ar 01202 391319.

Gwiber (*Vipera berus*)
Anaml y mae'r wiber yn tyfu yn fwy na 65cm (26 modfedd) o hyd. Er fod llawer o amrywiaeth rhwng unigolion, mae'r gwryw fel arfer yn llwyd golau gyda zig-zag du eglur ar hyd eu cefnau. Mae gan y benywod gefndir brown gyda marciau zig-zag tywyllach. Mae gwiberod i'w cael yng Nghymru, Lloegr a'r Alban - gan amlaf ar rostiroedd tywodlyd a llethrau glaswelltog. Mamoliaid bychain yw eu bwyd ac felly gallant gynorthwyo'r ffarmwr drwy gadw niferoedd y llygod i lawr. Y wiber yw unig neidr wenwynig Prydain ond gan mai pwrpas y gwenwyn yw lladd anifeiliaid bychain megis llygod y maes, nid yw'n arbennig o gryf. Mae perygl brathiad gwiber yn cael ei orbwysleisio'n aml (gweler isod). Anaml y gwelir hwynt mewn gerddi oherwydd eu gofynion arbennig ynglyn â'u cynefin.

Neidr ddefaid (*Anguis fragilis*)
Madfall yw'r neidr ddefaid mewn gwirionedd ond gan nad oes ganddi goesau gweladwy mae'n cael ei gam-gymryd am neidr yn aml. Maent yn llai na nadroedd, yn tyfu at 50cm (21 modfedd) fan bellaf. Mae eu lliw yn newid wrth iddynt fynd yn hyn; mae cefnau'r rhai ifanc yn lliw brown-euraid metalaidd gydag ochrau brown tywyll neu ddu a streipen dywyll yn rhedeg o'u pennau i lawr eu cefnau. Mae gan yr oedolion gwryw gefndir brown/aur/llwyd mwy pwl ac mae'r benywod fel arfer yn cadw'r ochrau tywyll a'r streipen ar eu cefn. Nid yw'r gwrywod yn cadw'r marciau tywyll fel arfer ond weithiau mae ganddynt ychydig o smotiau glas sydd yn adlewyrchu'r golau fel enfys. Mae'r neidr ddefaid yn gyffredin ym mhobman drwy Loegr, Cymru a'r Alban a deuir o hyd iddi mewn niferoedd o gynefinoedd, yn arbennig glaswelltir a rhostir. Maent yn hoffi gerddi a rhandiroedd lle maent yn bwydo ar wlithenni a phlâu eraill - ac o ganlyniad adwaenir hwy fel "cyfaill y garddwr"! Yn anffortunus, mae cathod weithiau yn ymosod ar y neidr ddefaid ac mae hefyd yn dioddef oddi wrth bobl yn torri glaswellt yn ddiofal.

Nadroedd Prin
Yn achlysurol gwelir nadroedd hollol ddu neu rai tywyll iawn. Gall y rhain fod yn nadroedd defaid neu yn wiberod, sydd weithiau yn amrywio yn eu lliwiau. Os dowch o hyd i neidr nad yw'n cyd-fynd â'r disgrifiadau blaenorol, gallai fod yn neidr anwes sydd wedi dianc. Mae amrywiaeth eang o nadroedd egsotig yn cael eu cadw gan bobl ac maent yn amrywio'n fawr mewn lliw, maint a siâp. Os tybiwch eich bod wedi dod o hyd i un o'r rhain, cysylltwch â'r rhif ffôn sydd ar waelod y pamffled hwn er mwyn cael cyngor.

4. Rwyf yn poeni am weld nadroedd yn fy ngardd - beth fedra' i ei wneud?

Os dowch o hyd i neidr yn eich gardd ac os nad ydych yn teimlo'n hapus iawn am hynny, mae nifer o bwyntiau y dylech eu hystyried.

- Nid yw nadroedd a madfallod yn peri llawer o berygl i ddyn nac i anifeiliaid anwes. Coda'r ofn mwyaf oherwydd camddealltwriaeth ac anwybodaeth.
- Mae'n fwy na thebyg mai dim ond mynd **trwy** eich gardd y mae'r neidr, neu yn chwilio am fwyd ac felly dim ond rhyw unwaith neu ddwywaith y flwyddyn y gwelwch hi.
- Os ewch yn agos at neidr mae'n debygol o ddiflannu i'r tyfiant - cofiwch fod arnyn nhw fwy o'ch ofn chi nag sydd gennych chi o'u hofn nhw.

Fel y soniwyd uchod, mae pob neidr yn cael ei gwarchod rhag ei lladd neu ei niweidio yn ôl y gyfraith ac mae'n rhaid cael rheswm digonol i'w symud hwy allan o unrhyw ardd. Yn ymarferol, gallai hynny olygu symud gwiberod o ardd lle mae plant bach ac anifeiliad anwes yn chwarae yn rheolaidd. Mewn achos o'r fath byddai rheswm dros symud y gwiberod a byddai'n rhaid cael cyngor cyn gweithredu oherwydd gofynion

y gyfraith ynglyn â symud yr anifeiliaid. Gallwch gael cyngor ar y pwnc hwn ar y llinell sy'n rhoi cymorth ynglyn â nadroedd (cyfeiriad a rhif ffôn ar ddiwedd y pamffled hwn). Mae cymdeithasau lleol mewn nifer o siroedd/ardaloedd a fedr ateb eich cwestiynau am unrhyw neidr. Nid oes rhaid dweud wrthych na ddylech geisio cydio mewn gwiber os nad oes gennych brofiad o drin nadroedd gwenwynig. Mae cyngor ar gael am wiberod, y gyfraith a thrin nadroedd trwy gysylltu â'r llinell gymorth.

Fel arfer, nid oes angen symud nadroedd brith na nadroedd defaid gan eu bod yn hollol ddiniwed; ar wahân i hynny, byddai'n anodd iawn dal pob anifail sydd yn dod i mewn i unrhyw ardd arbennig oherwydd byddent yn siwr o fod ar chwâl dros ardal eang.

Un enghraifft o achlysur lle mae'n rhaid, hwyrach, symud nadroedd yw os yw'r anifail mewn perygl e.e. ar y ffordd. Os felly, dylid ei symud i'r cynefin addas agosaf (gweler **Pa neidr yw hi?**). Os yw'r cynefin wedi ei ddinistrio neu os tarfwyd arno (er enghraifft, o ganlyniad i dân) bydd yn angenrheidiol hwyrach dod o hyd i gynefin addas arall. Unwaith eto, cysylltwch â'r llinell gymorth i gael gwybodaeth am bobl leol y gallwch gysylltu â hwy, gan y gall fod yn anghyfreithlon i chi adael neidr ar safle anaddas. Weithiau, os aflonyddir arnynt, mae nadroedd defaid yn cymryd arnynt eu bod wedi marw trwy droi pen blaen eu corff wyneb i waered a gadael i'w tafod hongian allan. Gallant hefyd gynhyrchu hylif drewllyd (ond diniwed). Os dowch ar draws neidr yn ffugio marwolaeth, cystal gadael llonydd iddi neu o bosibl ei symud os yw mewn man arbennig o beryglus.

Er bod symud nadroedd yn waith anodd i'w gyflawni, gallwch geisio eu rhwystro rhag dod ar eich tir drwy drin y safle'n briodol. Gall hyn olygu cadw'r glaswellt yn fyr; peidio caniatau tyfiant trwchus a symud cuddfannau megis pentyrrau o goed neu gerrig.

5. Brathiad neidr

Y wiber yw'r unig neidr wenwynig yn y Deyrnas Gyfunol. Nid yw'r neidr fraith na'r neidr lefn yn debygol o frathu, a hyd yn oed os gwnânt, maent yn hollol ddiniwed. Mae'r nifer o frathiadau gwiberod ym Mhrydain yn isel iawn gyda'r nifer fwyaf yn digwydd oherwydd fod person anwybodus wedi ceisio cydio'n frysiog yn y neidr. Er fod gwiberod yn gallu bod yn beryglus, mae ffigyrau yn dangos fod pobl Prydain yn llawer mwy tebygol o gael eu niweidio gan wenyn neu geffylau na gan wiberod.

Os caiff rhywun ei frathu, y cyngor syml yw:

- Cadwch yr aelod a frathwyd yn llonydd (rhowch rwymyn syml ar law neu fraich) a chysurwch y claf.
- Ewch i'r Adran Triniaeth Brys yn yr ysbyty agosaf mor fuan ag sy'n bosibl.
- Os yw'r claf yn mynd yn anymwybodol, dilynwch y mesurau cymorth cyntaf priodol (ar gael gan Ambiwlans Sant Ioan), defnyddiwch dechnegau adfywhau os oes angen a throwch y claf ar ei ochr.
- Nid yw cwn a chathod yn debygol o gael eu niweidio yn ddifrifol gan frathiad gwiber ond os ydych yn amau fod eich anifail anwes wedi cael brathiad, ewch ag ef at y milfeddyg.

6. Sut i fod yn garedig wrth nadroedd

Os ydych yn berchen ar, neu yn trin, darn o dir a fyddai'n addas i nadroedd ac os ydynt yn byw yn naturiol yn eich ardal, y mae nifer o fesurau y medrwch eu cymryd i'w denu yno - ac a fydd o fudd i fywyd gwyllt arall hefyd.

1. Cadwch batrymau gwahanol o gynefinoedd. Peidiwch â thorri'r glaswellt i gyd ar unwaith heb adael cuddfannau. Cadwch rai darnau yn hir ac eraill wedi eu torri.
2. Gwnewch yn siwr fod yr ardal yn glir cyn defnyddio peiriannau torri glaswellt lle mae'r glaswellt yn hir, gan fod nadroedd yn aml yn cael eu niweidio gan beiriannau o'r fath.
3. Gwnewch dwmpathau compost allan o unrhyw ysbwriel llysieuol, yn enwedig glaswellt. Mae'r neidr ddefaid yn dodwy ei hwyau mewn tyfiant sy'n pydru er mwyn iddynt gadw'n gynnes a diogel. Gall twmpathau fod yn lleoedd da i dorheuluo os ydynt wedi eu gosod mewn safleoedd addas. Peidiwch â tharfu ar y twmpath rhwng mis Mehefin a mis Hydref.

4. Os ydych yn defnyddio rhwydi plastig (e.e. dros bwll dwr neu dros eich llysiau) yna gwnewch yn siwr eich bod yn defnyddio'r math sydd â thyllau o 1.5" neu fwy gan fod nadroedd defaid yn medru mynd yn sownd mewn tyllau llai (ac weithiau'n marw).
5. Sefydlwch bwll dwr ar gyfer bywyd gwyllt. Gadwch i lyffaint, madfallod a llyffaint du ddod i fyw ynddo yn naturiol. Hwyrach y daw y neidr ddefaid i'ch gardd wedyn i chwilio am fwyd.
6. Rhowch bentyrrau o gerrig neu goed yn yr ardd i greu safleoedd torheulo a chuddfannau i nadroedd a madfallod. Byddai creu llethrau yn wynebu'r de o fudd hefyd i ddenu ymlusgiaid sydd yn hoffi'r haul.

7. Cyfrif nadroedd

Mae anfon eich cofnod o'r nadroedd a welsoch atom yn un ffordd hawdd i wneud eich rhan i ddiogelu ein nadroedd. Bydd eich cofnodion yn ein cynorthwyo i gael gwell syniad o'u statws, eu dosbarthiad a'r mathau o gynefinoedd y maent yn eu hoffi - mae hyn oll yn wybodaeth sydd yn angenrheidiol ar gyfer gwarchod nadroedd. Gallwn eich rhoi mewn cysylltiad â'ch cymdeithas ymlusgiaid ac amffibiaid leol, eich cofrestrydd ymlusgiaid sirol a rhoi gwybodaeth i chi am gynlluniau cofnodi cenedlaethol a fydd yn elwa o'ch gwybodaeth.

Os ydych wedi sylwi ar nadroedd defaid yn dodwy wyau yn eich twmpath compost neu ar unrhyw safle arall, byddai'r wybodaeth honno o fudd arbennig. Cofiwch fod unrhyw wybodaeth am unrhyw fath o neidr yn werthfawr. Gyrrwch gymaint o fanylion ag sy'n bosiblos gwelwch yn dda (e.e. math, safle, dyddiad, tywydd, math o gynefin). Byddai llun yn ddefnyddiol dros ben. Wrth gofnodi wyau nadroedd defaid, rhowch fanylion am y math o ddeunydd y gwnaed y nyth ohoni.Gyrrwch eich holl gofnodion i'r cyfeiriad ar y dudalen hon.

Os ydych am greu mwy o gyfeillion i nadroedd pam na wnewch brynu ac arddangos sticer "Be kind to snakes". Mae'r elw yn mynd tuag at warchod ymlusgiaid ac amffibiaid yn y Deyrnas Gyfunol. (Ar gael o'r cyfeiriad isod am 80 ceiniog yr un; rhaid archebu isafswm o 10 sticer).

8. Gwarchod nadroedd.

Y mae rhwydwaith o gymdeithasau ymlusgiaid ac amffibiaid (Grwpiau Herpetofauna Prydain ac Iwerddon) sydd yn hyrwyddo'r gwaith o warchodaeth yr anifeiliaid hyn drwy gofnodi, archwilio, diogelu safleoedd, addysgu a rheoli ymarferol. Creu diddordeb ymysg pobl leol yw'r ffordd orau i ddiogelu nadroedd a gallwch chi wneud llawer i gynorthwyo hyn. Am fwy o wybodaeth cysylltwch â Jim Foster yn y cyfeiriad isod.

Llyfrau ychwanegol

Conserving Grass Snakes Frog*life* advice sheet 6.

Reptiles and Amphibians in Britain gan Deryk Frazer. Collins (1983) ac argraffiadau gwreiddiol gan Malcolm Smith

Snakes and Lizards gan Tom Langton. Whittet Books (1989) £6.95

The Adder gan Peter Stafford. Shire Natural History (1987) £1.95

Herpetofauna Worker's Guide. Herpetofauna Conservation International Ltd. (1995)

Save our Reptiles. Pamffled gan y British Herpetological Society Conservation Committee.

Ysgrifennwyd a chynhychwyd gan Frog*life*. Os hoffech gael cyngor neu wybodaeth bellach, cysylltwch â'r llinell gymorth i nadroedd:

Froglife
White Lodge,
London Road,
Peterborough
PE7 0LG
Rhif ffôn 01733 558844

Cynhyrchwyd y pamffled hwn gyda chymorth y Cynllun y Rhywogaethau Cyffredin a chafodd ei ariannu yn rhannol gan Natur Lloegr, Cyngor Cefn Gwlad Cymru, a Threftadaeth Naturiol yr Alban. Cynhyrchiad ar y cyd gyda'r Gymdeithas Frenhinol er Atal Creulondeb i Anifeiliaid. Lluniau gan Denys Ovendon o 'Snakes and

Lizards', Whittet Books.